

Fersiwn		TERFYNOL
Dyddiad Diweddaraf	Adolygiad	Amherthnasol

MODEL POLISI CYFLOG YSGOL GYFAN



RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Model Polisi Cyflog Ysgol Gyfan
Adran	Adnoddau Dynol
Swyddogion Adolygu	Grŵp AD ar ran y pum Awdurdod Lleol sef Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg
HANES ADOLYGU	
<u>Dyddiad</u>	<u>Adolygwyd gan</u>
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad y cymeradwyo
Cyfarwyddwyr Addysg pum Awdurdod Lleol CSC	Drafft ym mis Medi 2013
Cyfarwyddwyr Addysg pum Awdurdod Lleol CSC	15 Tachwedd 2013

Argymhellir y Polisi Tâl hwn gan bob un o'r pum Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r CSC.

Wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan Gorff Llywodraethu:

Ysgol _____ ar _____

CYNNWYS

Para		Tudalen
1.	Cyflwyniad	4
2.	Datganiad o Fwriad	4
3.	Deddfwriaeth Cydraddoldebau	4-5
4.	Cydraddoldeb a Chyflog ar sail Perfformiad	5
5.	Disgrifiadau Swyddi	5
6.	Gweld Cofnodion	5
7.	Gwerthuso	5
8.	Perthynoledd Cyflogau	5-6
9.	Diogelu	6
10.	Gweithdrefnau	6-7
11.	Penderfyniadau Blyneddol ar Gyflogau	7
12.	Hysbysiad am Benderfyniad ar Gyflog	7
13.	Y Weithdrefn Apêl	7
14.	Trefniadau Cyflog yr Arweinyddiaeth	8-12
15.	Athrawon eraill	12-13
16.	Ceisiadau am gael cyflog ar yr Ystod Cyflog Uwch	13-14
17.	Proses	14
18.	Asesu	14
19.	Cynnydd drwy'r Ystod Cyflog Uwch	15
20.	Rôl yr Ymarferydd Arweiniol	16
21.	Athrawon Heb Gymhwyso	16-17
22.	Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu	17-18
23.	Lwfans Anghenion Arbennig	18
24.	Staff Cymorth	18
25.	Gweithwyr Rhan-amser	19
26.	Athrawon a gyflogir ar fyr rybudd	19
27.	Dyletswyddau Preswyl	19
28.	Taliadau Ychwanegol	19-20
29.	Cymhelliant Recriwtio a Chadw Manteisiol	20
30.	Trefniadau Aberthu Cyflog	20
	Atodiadau	
1.	Strwythur Staffio	
2.	Datganiad Argymhelliad Cyflog	
3.	Y Broses Ceisiadau Trothwy	
4.	Ffurflen Gais Ystod Cyflog Uwch a Dilyniant	
5.	Y Weithdrefn Apêl	
6.	Datganiad o amser gweithio ar gyfer Athrawon Rhan-amser	

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn gosod y fframwaith ar gyfer penderfynu ynglŷn â chyflog athrawon a staff cymorth. O ran staff addysgu, fe'i datblygwyd i gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol a gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (y Ddogfen) a bu'n destun ymgynghoriad ymhlith staff a'r undebau llafur cydnabyddedig. O ran staff cymorth, pennir cyflog yn ôl strwythur cyflog a graddio'r Awdurdod Lleol perthnasol yn unol â'r broses gysylltiedig ar gyfer gwerthuso swyddi.
- 1.2 Mae'r polisi cyflog hwn ar gyfer pennu cyflog o 1 Medi 2014, ac mae'n ystyried perfformiad yn y flwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar 1 Medi 2013. Pennir cyflog ar gyfer 1 Medi 2013 yn ôl y ddogfen gyflog flaenorol ac mae'n adlewyrchu perfformiad yn y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Medi 2012.

2. DATGANIAD O FWRIAD

- 2.1 Prif ddyletswydd statudol Cyrff Llywodraethu yng Nghymru fel y'i nodir ym mharagraff 21(2) o Ddeddf Addysg 2002 yw "...cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol yn yr ysgol." Bwriad y polisi cyflog a'r Polisi Rheoli Perfformiad cysylltiedig yw ategu'r ddyletswydd statudol honno.
- 2.2 Bydd Corff Llywodraethu Ysgol _____ yn gweithredu gydag unplygrwydd, cyfrinachedd, gwrthrychedd a gonestrwydd er lles gorau'r Ysgol; gan fod yn agored ynglŷn â phenderfyniadau a wneir a chatau a weithredir, a bydd yn barod i egluro penderfyniadau a chatau gweithredu i bersonau â buddiant. Bydd ei weithdrefnau ar gyfer pennu cyflog yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus: gwrthrychedd, bod yn agored, tryloywder, atebolrwydd a chyfle cyfartal i gefnogi prosesau recriwtio a chadw a gwobrwyo athrawon a Phenaethiaid yn briodol.
- 2.3 Er mai'r Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithredu'r polisi hwn, y Pennaeth fydd yn rheoli swyddogaethau'r polisi hwn o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Cyflogau yw penderfynu ynglŷn â chyflog.

3. DEDDFWRIAETH CYDRADDOLDEBAU

- 3.1 Bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gydraddoldeb
- Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999;
 - Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;
 - Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2000;
 - Rheoliadau Cyflogeion Tymor Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2002;
 - Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010.

- 3.2 Bydd y Corff Llywodraethu'n hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â'r holl benderfyniadau ynglŷn â hysbysebu swyddi, penodi, hyrwyddo a thalu staff, hyfforddiant a datblygiad staff.

4. CYDRADDOLDEB A CHYFLOG AR SAIL PERFFORMIAD

- 4.1 Bydd y Corff Llywodraethu'n sicrhau bod ei brosesau'n agored, yn dryloyw a theg. Gellir cyfiawnhau pob penderfyniad yn wrthrychol. Gwneir addasiadau er mwyn ystyried amgylchiadau arbennig, e.e. absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb salwch hirdymor. Gwneir yr union addasiadau fesul achos, yn dibynnu ar amgylchiadau'r aelod staff unigol ac amgylchiadau'r ysgol.

5. DISGRIFIADAU SWYDDI

- 5.1 Bydd y Pennaeth yn sicrhau y caiff pob aelod staff ddisgrifiad swydd yn unol â'r strwythur staffio (Gweler Atodiad 1) a gytunwyd gan y Corff Llywodraethu. Bydd disgrifiadau swyddi'n nodi meysydd cyfrifoldeb allweddol y gellir eu hadolygu o dro i dro ar ôl ymgynghori â'r cyflogai perthnasol dan sylw a chael ei gydsyniad. Mae hyn yn ofynnol er mwyn gwneud newidiadau rhesymol wrth i anghenion yr ysgol newid.

6. GWELD COFNODION

- 6.1 Bydd y Corff Llywodraethu'n sicrhau bod y Pennaeth yn caniatáu i aelodau staff unigol weld eu cofnodion cyflogaeth personol. Ymatebir i geisiadau o'r fath o fewn amserlen resymol.

7. GWERTHUSO

- 7.1 Mae'r cyfrifoldeb am werthuso athrawon wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r cyfrifoldeb am gyflog athrawon wedi'i ddatganoli, ac mae penderfyniadau ynglŷn â chyflog athrawon yng Nghymru a Lloegr yn parhau'n gyfrifoldeb yr Adran Addysg (DfE). Mae'r ddogfen a gaiff ei hadolygu'n flynyddol yn gosod y darpariaethau perthnasol mewn perthynas â chyflog.
- 7.2 Bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â gwerthuso Penaethiaid ac athrawon trwy roi Polisi Rheoli Perfformiad Ysgolion ar waith.
- 7.3 Bydd Penaethiaid ac Athrawon yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.

8. PERTHYNOLEDD CYFLOGAU

- 8.1 Caiff perthynoledd cyflog priodol rhwng swyddi eu sefydlu a'u cynnal yn yr ysgol, gan gydnabod atebolrwydd a phwysau'r swydd, a dylai'r Corff Llywodraethu recriwtio, cadw a gwobrwyo cyflogaeth sydd ar y lefelau ansawdd gofynnol. Serch hynny, wrth wneud hyn, dylai'r Corff Llywodraethu gadw cyflog cyfartal mewn cof pan fo swyddi'r un mor feichus, a chynnal perthynoledd cyflogau rhwng swyddi sy'n amrywio o ran lefelau cyfrifoldeb.

- 8.2 Bydd y Pennaeth yn cymedroli argymhellion cyflog cychwynnol er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

9. DIOGELU

- 9.1 Pan fo penderfyniad ar gyflog yn arwain, neu o bosibl, yn arwain at gychwyn cyfnod o ddiogelu, bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Ddogfen ac yn rhoi'r hysbysiad gofynnol cyn gynted â phosibl sydd o fewn mis fan bellaf o wneud y penderfyniad.

10. GWEITHDREFNAU

- 10.1 Bydd y Corff Llywodraethu'n pennu'r gyllideb flynyddol ar gyfer cyflogau yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyflogau, gan ystyried paragraff 15.1 y Ddogfen ac unrhyw daliadau i'r arweinyddiaeth.
- 10.2 Mae'r Corff Llywodraethu wedi datganoli ei bwerau o ran cyflogau i'r Pwyllgor Cyflogau. Ac eithrio'r Pennaeth (a fydd yn bresennol i roi cyngor) mae'n rhaid i unrhyw un a gyflogir i weithio yn yr ysgol adael unrhyw gyfarfod lle bydd cyflog neu werthusiad unrhyw gyflogai arall yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Mae'n rhaid i unrhyw berson perthnasol adael os bydd achos o fuddiannau'n gwrthdaro neu os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'i allu i weithredu'n ddiduedd. Mae'n rhaid i'r Pennaeth adael y cyfarfod ar yr adeg pan drafodir cyflog y Pennaeth. Os bydd y Pwyllgor Cyflogau wedi gwahodd cynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol i gyfarfod er mwyn cynnig cyngor wrth bennu cyflog y Pennaeth, bydd y cynrychiolydd yn gadael wrth i'r Pwyllgor drafod a dod i benderfyniad..
- 10.3 Ni all unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethu a gyflogir i weithio yn yr ysgol fod yn gymwys i fod yn aelod o'r Pwyllgor hwn..¹
- 10.4 Pennir cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyflogau o dro i dro gan y Corff Llywodraethu. Y cylch gorchwyl cyfredol yw:
- cyflawni amcanion y Polisi Cyflog Ysgol Gyfan yn deg a chyfartal;
 - defnyddio meini prawf y Polisi Cyflog Ysgol Gyfan wrth bennu cyflog pob aelod staff yn yr adolygiad blynyddol;
 - sicrhau bod y Polisi Cyflog Ysgol Gyfan yn cael ei adolygu bob blwyddyn a'i fod yn addas i'r diben, gan drafod â chynrychiolwyr undebau llafur a staff pan fo angen unrhyw newid.
 - ufuddhau i'r holl rwymedigaethau statudol a chytundebol;
 - cofnodi'n glir y rhesymau am bob penderfyniad ac adrodd ar ffeithiau'r penderfyniadau hyn (gan sicrhau cyfrinachedd) yng nghyfarfod llawn nesaf y Corff Llywodraethu;
 - argymhell i'r Corff Llywodraethu y gyllideb flynyddol debygol fydd ei hangen ar gyfer cyflogau, gan gadw mewn cof yr angen am sicrhau arian digonol i dalu am unrhyw gynnydd yng nghyflogau'r holl athrawon cymwys a gweithredu unrhyw benderfyniadau ynglŷn â dyfarniadau cyflog;

¹ Yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, Rhan 10 para. 63 (2) ac Atodlen 7 (3)

- bod ar y blaen gyda datblygiadau perthnasol a rhoi gwybod i'r Corff Llywodraethu pan fo angen adolygu polisi cyflog yr ysgol;
- cydweithio â'r Pennaeth i sicrhau bod y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso 2011 (Athrawon).

10.5 Rhoddir adroddiad y Pwyllgor Cyflogau yn adran gyfrinachol agenda'r Corff Llywodraethu a chaiff ei dderbyn neu ei gyfeirio'n ôl. Dim ond os yw'r Pwyllgor Cyflogau wedi mynd y tu hwnt i'w bwerau o dan y polisi y gellir cyfeirio'r adroddiad yn ôl.

10.6 Bydd y Corff Llywodraethu'n monitro a chofnodi canlyniadau'r penderfyniadau ar gyflogau, gan sicrhau bod yr ysgol yn parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall. Darperir y wybodaeth hon ar gais i staff yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas â Deddf Diogelu Data 1998.

11. PENDERFYNIADAU BLYNYDDOL AR GYFLOGAU

11.1 Adolygir cyflogau'r holl staff addysgu, gan gynnwys y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth(iaid) a'r Pennaeth(iaid) Cynorthwyol bob blwyddyn i'w gweithredu ar 1 Medi. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gyflawni adolygiadau o gyflogau athrawon bob blwyddyn erbyn 31 Hydref ac adolygiad y Pennaeth erbyn 31 Rhagfyr, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol, gan roi gwybod am hynny i'r staff perthnasol. Byddant, serch hynny'n cyflawni'r broses heb oedi diangen, a bydd yr holl athrawon, ynghyd â'r Pennaeth yn derbyn datganiad ysgrifenedig yn nodi eu cyflog ac unrhyw fuddiannau ariannol eraill sy'n ddyledus iddynt.

11.2 Gellir cynnal adolygiadau ar adegau eraill o'r flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newid i ddisgrifiadau swyddi a all arwain at newid y sail ar gyfer cyfrifo cyflog yr unigolyn. Rhoddir datganiad ysgrifenedig ar ôl unrhyw adolygiad a phan fo hynny'n berthnasol darperir gwybodaeth am y sail ar gyfer y dyfarniad a wnaed.

12. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD AR GYFLOG

12.1 Bydd pob aelod staff yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am benderfyniadau gan y Pwyllgor Cyflogau yn unol â pharagraff 3.4 y Ddogfen erbyn 31 Hydref i athrawon a 31 Rhagfyr i Bennaethiaid gan nodi'r rhesymau am ddod i'r cyfryw benderfyniad (Atodiad 2). Cyflwynir hysbysiad ynglŷn â diwygio cyflog o'r dyddiad perthnasol yn union ar ôl i amser terfynol ar gyfer cyflwyno apêl ddod i ben, neu'n union ar ôl i apêl ddod i ben.

13. Y Weithdrefn Apêl

13.1 Mae gan y Corff Llywodraethu weithdrefn apêl mewn perthynas â chyflog yn unol â darpariaethau paragraff 2.1(b). Mae'r weithdrefn wedi'i chynnwys yn y polisi hwn yn Atodiad 5.

14. TREFNIADAU CYFLOG YR ARWEINYDDIAETH

14.1 YSTOD CYFLOGAU

Yn unol â'r Ddogfen, bydd y Corff Llywodraethu wedi pennu Ystod Cyflog Unigol ar gyfer y Pennaeth ac aelodau eraill y Tîm Arwain, gweler Atodiad 1 y Polisi hwn. Fodd bynnag, mae'r Corff Llywodraethu'n cadw'r hawl i adolygu'r graddfeydd hyn yn unol â'r Ddogfen. Y raddfa gyflog ar gyfer aelodau'r Tîm Arwain yw:

L1	£37,836.00
L2	£38,784.00
L3	£39,752.00
L4	£40,743.00
L5	£41,757.00
L6	£42,803.00
L7	£43,957.00
L8	£44,971.00
L9	£46,094.00
L10	£47,277.00
L11	£48,505.00
L12	£49,622.00
L13	£50,863.00
L14	£52,131.00
L15	£53,429.00
L16	£54,849.00
L17	£56,109.00
L18	£57,520.00
L19	£58,946.00
L20	£60,408.00
L21	£61,901.00
L22	£63,440.00
L23	£65,011.00
L24	£66,623.00
L25	£68,279.00
L26	£69,968.00
L27	£71,701.00
L28	£73,480.00
L29	£75,300.00
L30	£77,174.00
L31	£79,081.00
L32	£81,047.00
L33	£83,061.00
L34	£85,114.00
L35	£87,229.00
L36	£89,390.00
L37	£91,612.00
L38	£93,878.00
L39	£96,166.00
L40	£98,566.00
L41	£101,029.00
L42	£103,560.00
L43	£106,148.00

Gall y cyflogau uchod newid yn unol â dyfarniadau cyflog y dyfodol.

14.2 CYFLOG Y PENNAETH

14.2.1 Cyflog adeg penodi

- os penodir ar neu ar ôl 1 Medi 2013, bydd y Corff Llywodraethu'n pennu'r ystod cyflog ar gyfer yr hysbyseb ac yn cytuno ar gyflog adeg penodi, gan ystyried rôl lawn y Pennaeth (Rhan 9) ac yn unol â pharagraffau 11 a 6.2(e) a pharagraffau 11 i 26 o adran 3 y canllawiau;
- bydd y Pwyllgor Cyflogau'n adolygu grŵp yr Ysgol a'r Ystod Ysgol Unigol (ISR) ar gyfer y Pennaeth yn unol â pharagraffau 7, 8 a 10 y ddogfen (ysgol gyffredin), neu baragraffau 7, 9 a 10 y Ddogfen (ysgolion arbennig);
- os yw'r Pennaeth yn ysgwyddo atebolrwydd parhaol am un neu ragor o ysgolion ychwanegol, bydd y Pwyllgor Cyflogau'n pennu ISR yn unol â ddarpariaethau paragraff 11.5 y Ddogfen;
- Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n rhoi sylw dyledus i ddarpariaethau paragraffau 11.6 i 11.9 y Ddogfen gan ystyried hefyd unrhyw daliadau parhaol eraill, a wneir i staff yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwahanrediad priodol wedi'u sefydlu a'u cynnal rhwng swyddi sy'n amrywio o ran cyfrifoldebau ac atebolrwydd;
- gall y Pwyllgor Cyflogau ddefnyddio disgresiwn o dan baragraff 6.2(e) a chyflog ar unrhyw un o'r pedwar pwynt isaf ar yr ISR, er mwyn penodi'r ymgeisydd o'i dewis, wrth bennu cyflog cychwynnol Pennaeth sydd newydd ei benodi. Fodd bynnag, fel rheol bydd y cyflog cychwynnol ar y pwynt isaf.
- gall y Pwyllgor Cyflogau ystyried defnyddio'i bwerau i roi dyfarniad disgresiwn o dan 12.1 a 12.3 (b) y Ddogfen (os yw'r corff llywodraethu'n credu y byddai'r ysgol yn cael anhawster recriwtio Pennaeth i'r swydd wag);
- gall y Pwyllgor Cyflogau ystyried yr angen i ddyfarnu unrhyw daliadau disgresiwn pellach i Bennaeth yn unol â pharagraff 12.1 i 12.5 y Ddogfen;
- gall y Pwyllgor Cyflogau ystyried defnyddio'i ddisgresiwn dan amgylchiadau cwbl eithriadol i fynd y tu hwnt i'r terfyn o 25% ar daliadau disgresiwn fel y nodir ym mharagraff 12.5 y Ddogfen. Fodd bynnag, cyn cytuno i wneud hynny, bydd yn gofyn am gytundeb y Corff Llywodraethu a fydd yn ei dro'n gofyn am gyngor annibynnol allanol cyn rhoi ei gytundeb.

14.2.3 Penaethiaid Mewn Swydd

Bydd y Corff Llywodraethu'n pennu cyflog Pennaeth mewn gwasanaeth yn unol â pharagraff 6 y Ddogfen.

- bydd y Pwyllgor Cyflogau'n adolygu cyflog y Pennaeth yn unol â pharagraffau 6.1 a 6.2 y Ddogfen h.y. er mwyn ennill pwyntiau ychwanegol ar y raddfa, rhaid i Bennaeth ddangos, yn ei werthusiad ei fod wedi cyflawni ei amcanion perfformiad a bennwyd yn flaenorol a bod perfformiad o ansawdd uchel wedi'i gynnal. Yn unol â pharagraff 6.2 (b) y Ddogfen, ac eithrio i'r graddau bod angen symud i fyny'r raddfa gyflog er mwyn sicrhau bod cyflog y Pennaeth yn cyfateb i leiafswm yr ystod cyflog dan sylw, ni chaiff y pwyllgor cyflogau gynyddu cyflog y Pennaeth gan ragor na dau bwynt yn ystod un flwyddyn ysgol. Gall y Pwyllgor Cyflogau weld y cyfarwyddiadau hyn yn y Datganiad Argymhelliad Cyflog yn Atodiad 2.
- gall y Pwyllgor Cyflogau bennu ISR y Pennaeth o fewn yr ystod grŵp ar gyfer yr ysgol, fel y mae ar 1 Medi neu ar unrhyw adeg os ydynt yn ystyried hynny'n angenrheidiol (paragraff 12 o adran 3 y canllawiau);
- os yw'r pwyllgor Cyflogau'n penderfynu newid yr ISR, bydd yn pennu ISR y Pennaeth o fewn yr ystod grŵp ar gyfer yr ysgol, yn unol â pharagraff 11; a pharagraffau 12 o adran 3 y canllawiau;
- os yw'r Pennaeth yn ysgwyddo atebolrwydd dros dro am un neu ragor o ysgolion ychwanegol, gall y Pwyllgor Cyflogau ystyried rhoi dyfarniad disgrisiwn o dan baragraffau 12.1 i 12.3(d).
- gall y Pwyllgor Cyflogau ystyried defnyddio ei bwerau disgrisiwn, fel yn narpariaethau paragraffau 12.1 i 12.5.
- gall y Pwyllgor Cyflogau ystyried defnyddio'i ddisgrisiwn dan amgylchiadau cwbl eithriadol i fynd y tu hwnt i'r terfyn o 25% ar daliadau disgrisiwn fel y nodir ym mharagraff 12.5 y Ddogfen. Fodd bynnag, cyn cytuno i wneud hynny, bydd yn gofyn am gytundeb y Corff Llywodraethu a fydd, yn ei dro, yn gofyn am gyngor annibynnol allanol cyn rhoi ei gytundeb.

14.2.3 Gellir penderfynu peidio â dyfarnu taliad dilynol ar y raddfa os yw'r Pennaeth yn destun achos galluogrwydd. Cadeirydd y Llywodraethwyr fydd yn rhoi gwybod i'r Pennaeth am hyn os gwneir penderfyniad o'r fath.

14.3 DIRPRWY BENNAETH / PENNAETH CYNORTHWYOL

14.3.1 Cyflog adeg Penodi

Pan fydd angen gwneud penodiad newydd, bydd y Corff Llywodraethu'n pennu'r ystod cyflog ar gyfer yr hysbyseb ac yn cytuno ar y cyflog wrth benodi fel a ganlyn:

- bydd y Pwyllgor Cyflogi'n pennu ystod cyflog yn unol â pharagraff 13 y Ddogfen, gan ystyried rôl y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol a nodir ym mharagraff 49 y Ddogfen;
- bydd y Pwyllgor Cyflogau'n cofnodi ei resymau am bennu ystod cyflog y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol, yn unol â pharagraff 29 o adran 3 y canllawiau;
- gall y Pwyllgor Cyflogau ddefnyddio ei ddisgresiwn o dan baragraff 13.3 y Ddogfen, a thalu unrhyw un o dri phwynt isaf ystod cyflog dirprwy bennaethiaid, er mwyn penodi'r ymgeisydd o'i ddewis. Fodd bynnag, fel rheol byddai'r cyflog cychwynnol ar y pwynt isaf.

14.3.2 Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol mewn Gwasanaeth

- bydd y Pwyllgor Cyflogau'n adolygu cyflog y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn unol â pharagraffau 13.1 neu 13.2, h.y. er mwyn i ddirprwyon neu bennaethiaid cynorthwyol ennill pwyntiau ychwanegol ar y raddfa, rhaid iddynt ddangos cyflawniad yn eu hadolygiad o berfformiad. Yn unol â pharagraff 13.2 y Ddogfen ac eithrio i'r graddau bod angen symud i fyny'r raddfa gyflog er mwyn sicrhau bod cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol yn cyfateb i leiafswm yr ystod cyflog dan sylw, ni chaiff y pwyllgor cyflogau gynyddu cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol gan ragor na dau bwynt yn ystod un flwyddyn ysgol. Mae'r cyfarwyddiadau hyn ar gael i'r Pwyllgor Cyflogau yn y Datganiad Argymhelliad Cyflog yn Atodiad 2;
- gall y Pwyllgor Cyflogau adolygu, ac os oes angen, ailbennu ystod cyflog y Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol os bu newid sylweddol yng nghyfrifoldebau'r Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn ystod eu gwasanaeth (paragraff 29 o adran 3 y canllawiau);
- gall y Pwyllgor Cyflogau bennu ystod cyflog y Dirprwy Bennaeth ar unrhyw adeg yn unol â pharagraff 29 o adran 3 y canllawiau yn unol â darpariaethau disgresiwn y paragraff hwnnw ac er mwyn cynnal gwahanrediad priodol;

14.3.3 Gellir penderfynu peidio â dyfarnu taliad dilynol ar y raddfa os yw'r Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn destun achos galluogrwydd. Y Pennaeth sy'n gyfrifol am roi gwybod am benderfyniad o'r fath.

14.4 LWFANS AM DDYLETSWYDDAU DROS DRO

- 14.4.1 Telir lwfansau i athrawon am gyflawni dyletswyddau dros dro fel Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol yn unol â pharagraff 29 y ddogfen. Bydd y Pwyllgor Cyflogau cyn pen pedair wythnos o gychwyn y dyletswyddau dros dro, yn pennu a ddylid talu'r lwfans i'r sawl sydd yn y swydd dros dro ai peidio. Os yw'r cyfnod absenoldeb yn hir neu wedi ei gynllunio, gellir cytuno ar lwfans dros dro ymlaen llaw a thalu'r lwfans o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.
- 14.4.2 Bydd unrhyw athro sy'n cyflawni dyletswyddau Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol am gyfnod o bedair wythnos neu ragor yn derbyn tâl ar bwynt priodol o ISR Pennaeth, ystod Dirprwy Bennaeth neu ystod Pennaeth Cynorthwyol, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Cyflogau. Telir ôl-daliad o'r dyddiad cyntaf yr ymgwymerwyd â'r dyletswyddau.

15. ATHRAWON

- 15.1 Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n defnyddio ystod cyflog chwe phwynt ar gyfer cyflogau Athrawon. Felly, yr ystod cyflog ar gyfer athrawon y brif ystod cyflog yn yr ysgol hon yw:

15.2	Pwynt 1	£21,804
	Pwynt 2	£23,528
	Pwynt 3	£25,420
	Pwynt 4	£27,376
	Pwynt 5	£29,533
	Pwynt 6	£31,868

Gall y cyflogau uchod newid yn unol â dyfarniadau cyflog y dyfodol.

15.3 Cyflog adeg penodi

- 15.3.1 Bydd y Corff Llywodraethu'n pennu cyflog cychwynnol swydd wag ar gyfer athro dosbarth. Mae'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i egwyddor cludadwyedd cyflog a bydd yn defnyddio'r egwyddor hon wrth benodi athrawon. Ni fydd y corff llywodraethu'n cyfyngu'r ystod cyflog a hysbyseb ar gyfer swyddi athrawon dosbarth, na'r cyflog cychwynnol a'r rhagolygon dilyniant cyflog sydd ar gael, ac eithrio lleiafswm y Brif Ystod Cyflog a mwyafswm yr Ystod Cyflog Uwch.

- 15.3.2 Wrth bennu cyflog cychwynnol athro dosbarth cyfredol sydd wedi gweithio mewn ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol neu academi yng Nghymru a Lloegr, bydd y Corff Llywodraethu'n talu'r athro ar y Brif Ystod Cyflog neu'r Ystod Cyflog Uwch ar bwynt ar y raddfa sydd o leiaf yn cynnal cyflog blaenorol yr athro yn ogystal ag unrhyw bwyntiau uwch y byddai'r athro wedi'u derbyn pe bai wedi aros yn y swydd flaenorol.

Hefyd, os yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn athro sydd wedi cymryd seibiant o ddysgu, yna gall y Corff Llywodraethu benderfynu ystyried cyflog terfynol blaenorol yr ymgeisydd.

Os mai Athro Newydd Gymhwysu yw'r ymgeisydd, fel rheol, bydd yr athro'n cychwyn ar bwynt 1 prif ystod cyflog athrawon. Fodd bynnag, gall y

Corff Llywodraethu hefyd ystyried rhoi un pwynt am bob tair blynedd o brofiad y tu allan i addysgu a dreuliwyd mewn maes perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant masnachol neu ddiwydiannol, amser a dreuliwyd mewn galwedigaeth sy'n berthnasol i waith yr athro yn yr ysgol, a phrofiad gyda phlant/pobl ifanc;

- 15.3.4 Bydd y Corff Llywodraethu'n defnyddio'i ddisgresiwn, yn ôl yr angen, i ddyfarnu cymhelliant recriwtio manteisiol er mwyn penodi ymgeisydd o'i ddewis.

15.5 Dilyniant Cyflog

- 15.5.1 Bydd athrawon yn symud i fyny'r brif ystod cyflog, un pwynt blynyddol ar y tro, pan fyddant wedi gwneud cynnydd da o ran eu hamcanion yn unol â Pholisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

- 15.5.2 Bydd y Pennaeth yn cynghori'r Pwyllgor Cyflogau wrth wneud yr holl benderfyniadau hyn. Bydd modd priodoli pob penderfyniad yn amlwg i berfformiad yr athro dan sylw. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu taliad dilynol ar y raddfa os yw'r athro yn destun achos galluogrwydd. Rhoddir gwybod i'r aelod staff perthnasol yn unol â pharagraff 22.2 (f) am benderfyniad o'r fath. Bydd y pwyllgor cyflogau yn gallu cyfiawnhau ei benderfyniadau.

- 15.5.3 Dilyniant cyflog Athrawon Newydd Gymhwyso – ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu llwyddiannus, dyfernir taliad dilynol ar y raddfa gyflog i athro newydd gymhwyso.

16. CEISIADAU AM GAEL CYFLOG AR YR YSTOD CYFLOG UWCH

- 16.1 O 1 Medi 2013, mae Dogfen Amodau a Thelerau Athrawon Ysgol yn caniatáu i unrhyw athro ar y brif ystod cyflog i wneud cais am symud ymlaen i'r ystod cyflog uwch (UPR). Fodd bynnag, disgwylir y bydd gan athrawon ar ben uchaf y brif ystod dystiolaeth ddigonol i gefnogi eu cais.

- 16.2 Yr UPR ar gyfer yr ysgol hon yw:

UPR 1	£34,523
UPR 2	£35,802
UPR 3	£37,124

Gall y cyflogau uchod newid yn unol â dyfarniadau cyflog y dyfodol.

- 16.3 Dylai pob cais gynnwys canlyniadau'r ddau werthusiad diweddaraf, yn unol â Rheoliadau Gwerthuso 2011, yn yr ysgol hon. Er mwyn i'r asesiad fod yn gadarn a thryloyw, yr unig dystiolaeth a ddefnyddir yw'r hyn sydd ar gael drwy'r broses werthuso/rheoli perfformiad. Pan nad oes gwybodaeth o'r fath yn berthnasol neu ar gael, e.e. wrth ddychwelyd ar ôl cyfnod mamolaeth, neu absenoldeb salwch, rhaid cyflwyno datganiad ysgrifenedig a chrynodeb o dystiolaeth er mwyn dangos bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf

asesu. Gellir cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o gyfnod o 3 blynedd cyn dyddiad y cais i gefnogi'r cais.

17. Proses i symud drwy'r trothwy i UPR

17.1 Gellir cyflwyno un cais bob blwyddyn. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Mawrth bob blwyddyn fel arfer; fodd bynnag, bydd eithriadau'n cael eu gwneud o dan amgylchiadau penodol, e.e. yr athrawon hynny sydd ar absenoldeb mamolaeth neu sydd ar absenoldeb salwch.

17.2 Dangosir y broses ar gyfer ceisiadau yn Atodiad 3:

18. Asesu:

18.1 Bydd angen i'r athro fodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 18.2 o'r Ddogfen, sef yn bennaf bod yr:

- athro yn fedrus iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol;
- mae cyflawniadau a chyfraniad yr athro i'r ysgol yn sylweddol a pharhaus

18.2 Yn yr ysgol hon, dyma ystyr y canlynol:

“medrus iawn”: mae perfformiad yr athro yn dangos gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ragorol a thrylwyr o'i rôl benodol a'r cyd-destun wrth gyflawni ei waith ynddo

“sylweddol”: mae cyflawniadau a chyfraniad yr athro i'r ysgol yn arwyddocaol, nid yn unig wrth godi safonau addysgu a dysgu yn ei ystafell ddosbarth ei hun, neu gyda grwpiau o blant ond wrth wneud cyfraniad ehangach pwysig at wella'r ysgol hefyd

“parhaus”: mae'n rhaid i'r athro fod wedi cael dau adroddiad gwerthuso llwyddiannus olynol yn yr ysgol hon ac wedi gwneud cynnydd da tuag at ei amcanion yn ystod y cyfnod hwn (gweler eithriadau yn y cyflwyniad i'r adran hon)

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am ffynonellau tystiolaeth, wedi'u cynnwys ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr ysgol.

19. CYNNYDD DRWY'R YSTOD CYFLOG UWCH

19.1 Penderfyniadau cyflog mewn grym o 1 Medi 2013

19.1.1 Yn unol â pharagraffau 19.5 a 19.6 o Ddogfen **2012**, bydd y pwyllgor cyflogau'n pennu y bydd un pwynt yn cael ei ddyfarnu i athro ar y raddfa gyflog uwch y mae ei gyflawniadau a'u gyfraniad i'r ysgol, gydol y cyfnod perthnasol, wedi bod yn sylweddol a pharhaus (paragraffau 19.5.1 a pharagraffau 57 i 59 o adran 3 y canllawiau, Dogfen **2012**).

19.1.2 Wrth benderfynu, bydd y pwyllgor cyflogau'n ystyried canlyniadau dau adroddiad gwerthuso diweddaraf yr athro, wrth ddefnyddio'i ddisgresiwn yn unol â darpariaethau 19.5.1 Dogfen **2012**.

19.2 Penderfyniadau cyflog mewn grym o 1 Medi 2014

19.2.1 Bydd athrawon yn gymwys i ddringo'r Ystod Cyflog Uwch cyn belled â'u bod wedi cael dau adolygiad perfformiad llwyddiannus ar ôl eu penodi ar gam cyntaf yr UPR. Er na fydd angen gwneud cais, bydd cysylltiad amlwg rhwng y cynnydd cyflog a pherfformiad yr athro unigol fel yr amlinellir yn adran 20.1.2 a 20.1.3 isod.

19.2.2 Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n penderfynu a ddylid symud i fyny'r UPR o gwbl. Wrth benderfynu, bydd yn ystyried paragraff 18.1 y Polisi.

19.2.3 Bydd cysylltiad amlwg rhwng symud i fyny'r Ystod Cyflog Uwch a pherfformiad yr athro unigol. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n gallu cyfiawnhau ei benderfyniadau'n wrthrychol.

19.2.4 Os yw'n amlwg bod yr adolygiadau perfformiad yn dangos bod yr athro wedi parhau i gynnal y meini prawf a nodir uchod (gweler 'Ceisiadau am Gael Cyflog ar yr Ystod Cyflog Uwch'), a'i fod wedi gwneud cynnydd da tuag at eu hamcanion, bydd yr athro yn symud i bwynt canol ar yr Ystod Cyflog Uwch; neu os yw ar y pwynt canol eisoes, bydd yn symud i bwynt uchaf yr Ystod Cyflog Uwch.

19.2.5 Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am ffynonellau tystiolaeth, wedi'u cynnwys ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr ysgol.

19.2.6 Bydd y Pennaeth yn cynghori'r Pwyllgor Cyflogau wrth wneud penderfyniadau o'r fath. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gofnodi'n briodol.

20. RÔL YR YMARFERYDD ARWEINIOL

20.1 Gellir sefydlu swyddi o'r fath ar gyfer athrawon sydd â'r prif ddiben o fodlu ac arwain gwelliannau i sgiliau addysgu, pan fo'r dyletswyddau hynny y tu allan i'r meini prawf ar gyfer strwythur taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu. Bydd unrhyw swyddi ychwanegol sy'n cael eu creu yn destun ymgynghoriad â chynrychiolwyr undebau llafur a staff yr ysgol.

20.2 Wrth bennu'r graddfeydd cyflog ar gyfer swyddi o'r fath, bydd y Corff Llywodraethu yn gwneud hyn yn ôl baich cyfrifoldebau'r swydd ac ystyried yr angen i sicrhau cyflog cyfartal pan fo swyddi yr un mor feichus a chynnal perthynoledd cyflogau rhwng swyddi sy'n amrywio o ran lefelau cyfrifoldeb.

20.3 Polisi'r Corff Llywodraethu fyddai penodi pob athro Ymarferydd Arweiniol newydd ar waelod yr ystod cyflog. Mae'r ystod cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn unol â pharagraff 19.3 y Ddogfen sef isafswm o £37,836 ac uchafswm o £57,520*

(neu)

Mae'r Corff Llywodraethu wedi penderfynu peidio â phenodi Athrawon i swyddi ymarferydd arweiniol. Bydd y Corff Llywodraethu'n adolygu'r swydd hon bob blwyddyn. *

** Dileer fel sy'n briodol*

21. ATHRAWON HEB GYMHWYSO

21.1 Cyflog ar ôl penodi

21.1.1 Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n talu unrhyw athro heb gymhwyso yn unol â pharagraff 20 y Ddogfen. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n pennu ble ar y raddfa y bydd athro heb gymhwyso sydd newydd ei benodi'n cychwyn, gan roi sylw i unrhyw gymwysterau neu brofiad perthnasol o werth sydd ganddo. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n ystyried a yw am dalu lwfans ychwanegol, yn unol â pharagraff 27 y Ddogfen.

21.1.2 Yr ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso yn yr ysgol hon yw:

Pwynt 1	£15,976
Pwynt 2	£17,834
Pwynt 3	£19,692
Pwynt 4	£21,550
Pwynt 5	£23,409
Pwynt 6	£25,267

Gall y cyflogau uchod amrywio yn unol â dyfarniadau cyflog y dyfodol

21.1.3 Bydd athrawon heb gymhwyso'n gallu dangos eu bod wedi gwneud cynnydd da tuag at eu hamcanion er mwyn dringo'r ystod cyflog athrawon heb gymhwyso. Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud ar sail tystiolaeth.

21.1.4 O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, gall rhai nad ydynt yn athrawon cymwys sydd wedi cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wneud 'gwaith penodedig' o dan amgylchiadau penodol. Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn ac ond yn cyflogi athrawon heb gymhwyso fel y nodir yn y Rheoliadau hyn.

21.1.5 Bydd y Pennaeth yn cyngori'r Pwyllgor Cyflogau wrth wneud pob penderfyniad o'r fath. Bydd cysylltiad amlwg rhwng pob penderfyniad (h.y. dim symud, un pwynt) a pherfformiad yr athro heb gymhwyso dan sylw. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu taliad dilynol os yw'r athro yn destun achos galluogrwydd, a bydd yr aelod staff yn cael ei hysbysu o hyn yn unol â pharagraff 22.2 (f) y Ddogfen. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n gallu cyfiawnhau ei benderfyniadau'n wrthrychol.

21.1.6 Bydd athro heb gymhwyso sy'n ennill statws athro cymwysedig yn cael ei dalu ar y brif ystod cyflog ar gyfer athrawon yn unol â'r Ddogfen.

22. TALIADAU CYFRIFOLDEBAU ADDYSGU A DYSGU

22.1 Bydd y lefelau a'r gwerthoedd canlynol yn gymwys yn yr ysgol hon:

CAD 1:

[rhowch ystod cyflog yr ysgol a'r pwyntiau cyflog ar gyfer unrhyw swyddi CAD1]

CAD2:

[rhowch ystod cyflog yr ysgol a'r pwyntiau cyflog ar gyfer unrhyw swyddi CAD2]

22.2 Mae'r meini prawf ar gyfer dyfarnu taliadau CAD 1 a 2 fel a ganlyn:

Cyn dyfarnu unrhyw daliadau CAD 1 neu 2, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu sicrhau bod dyletswyddau'r athro'n cynnwys cyfrifoldeb sylweddol nad yw'n ofynnol gan bob athro dosbarth a'i fod yn:

- canolbwyntio ar addysgu a dysgu
- angen ymarfer sgiliau a barn broffesiynol athro
- angen i'r athro arwain, rheoli a datblygu maes pwnc neu gwricwlwm; neu arwain a rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- cael effaith ar gynnydd addysgol disgyblion nad ydynt yn perthyn i ddisbarthiadau neilltuedig yr athro neu grwpiau o ddisgyblion;
- ymwneud ag arwain, datblygu a gwella ymarfer addysgu staff eraill.

Hefyd, cyn dyfarnu taliad CAD1, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu sicrhau bod y cyfrifoldeb sylweddol y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfrifoldeb rheoli llinell ar gyfer nifer sylweddol o bobl. Ni fydd yn ofynnol i athrawon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol parhaol heb dderbyn taliad CAD1 neu CAD2 parhaol priodol.

22.3 Gall y Pwyllgor Cyflogau ddyfarnu CAD3 rhwng £505 a £2,525.

Cyn gwneud unrhyw daliad CAD3, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu sicrhau bod y cyfrifoldebau'n bodloni a, b, a d o'r meini prawf uchod; eu bod yn dyfarnu am amser clir sy'n gyfyngedig i brosiectau gwella'r ysgol neu gyfrifoldebau allanol; ac nad yw'r cyfrifoldebau'n ofyniad parhaol neu strwythurol a ddylai gael ei ddyfarnu drwy daliad CAD parhaol.

Os yw'r Corff Llywodraethu am wneud taliadau CAD3, bydd y cyfrifoldebau arfaethedig, lefel y taliad a hyd y taliad yn cael ei nodi'n glir ar ôl ymgynghori â staff a chynrychiolwyr undeb.

Bydd y corff llywodraethu yn hysbysebu'r swydd yn fewnol gan nodi'n ysgrifenedig hyd y tymor penodol (dim mwy na 2 flynedd), a bydd cyfanswm y cyfraniad yn cael ei dalu mewn rhandaliadau misol.

Ni fydd unrhyw ddiogelu yn gymwys mewn perthynas â dyfarnu CAD3.

Nid yw taliadau CAD3 yn destun yr egwyddor pro-rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser.

[rhowch ystod cyflog yr ysgol a phwyntiau cyflog ar gyfer unrhyw swyddi CAD3]

23. LWFANS ANGHENION ARBENNIG

- 23.1 Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n dyfarnu lwfans AAA ar ystod rhwng £2,022 a £3,994 i unrhyw athro ystafell ddosbarth sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym mharagraff 26 y Ddogfen.
- 23.2 Wrth benderfynu faint o lwfans a delir, bydd y corff llywodraethu'n ystyried strwythur darpariaeth AAA yr ysgol, a oes angen cymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd, cymwysterau neu arbenigedd yr athro sy'n berthnasol i'r swydd; a gofynion perthynol y swydd (paragraff 26.3 y Ddogfen)
- 23.3 Bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn pennu gwahanrediad priodol mewn perthynas â swyddi AAA yn yr ysgol er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau sylweddol yn natur a her y gwaith dan sylw er mwyn gallu cyfiawnhau'r gwahanol lefelau o daliadau yn wrthrychol. Bydd y Corff Llywodraethu'n ystyried paragraffau 42 i 46 o adran 3 y canllawiau.

24. STAFF CYMORTH

- 24.1 Mae'r Pwyllgor Cyflogau yn nodi ei bwerau i bennu cyflog staff cymorth yn unol â pharagraff 15 [neu 27] Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, ond yn cydnabod bod yn rhaid iddo fod yn unol â phrosesau cyflogau a graddio insert Local Authority name (gan gynnwys gwerthuso swydd), a chan gynnwys y telerau ac amodau cyflogaeth cysylltiedig.
- 24.2 Nid yw'r darpariaethau eraill yn y Polisi Cyflogau hwn, ac eithrio'r broses Apêl, yn gymwys i staff cymorth.

25. GWEITHWYR RHAN-AMSER

- 25.1 Athrawon: Bydd y Corff Llywodraethu'n gweithredu darpariaethau'r Ddogfen mewn perthynas â chyflogau ac amser gweithio athrawon rhan-amser, yn unol â pharagraff 36 a 37 y Ddogfen, ac yna paragraffau 61-66 a 86-93 o adran 3 y canllawiau.
- 25.2 Yr holl staff: Bydd y Corff Llywodraethu'n sicrhau nad yw'r holl weithwyr rhan-amser yn cael eu trin yn llai ffafriol na'u cydweithwyr llawn amser, yn unol â'u hymrwymadau cyfreithiol.
- 25.3 Os yw athrawon yn cael eu cyflogi'n barhaus yn yr ysgol ond yn gweithio llai na'r diwrnod gwaith llawn neu lai nag wythnos waith llawn fe'u gelwir yn weithwyr rhan-amser. Bydd y Corff Llywodraethu'n rhoi datganiad ysgrifenedig iddynt yn nodi eu hymrwymadau o ran amser gweithio a'r weithdrefn a ddefnyddir i bennu eu cyflogau.
- 25.4 Datganiad Amser Gweithio ar gyfer Athrawon – gweler Atodiad 6.

26. ATHRAWON A GYFLOGIR AR FYR-RYBUDD

- 26.1 Byth athrawon o'r fath yn cael eu talu yn unol â pharagraff 38 y Ddogfen.
- 26.2 Pan gyflogir athrawon o ddydd i ddydd neu fel arall ar fyr-rybudd, bydd eu cyflog yn cael ei bennu yn unol â'r trefniadau cyflog statudol ar gyfer

athrawon eraill. O ran athrawon sy'n cael eu talu'n ddyddiol, bydd eu cyflogau'n cael ei asesu fel swm blynyddol, wedi'i rannu â 195 a'i luosi â nifer y dyddiau a weithiwyd.

27. DYLETSSWYDDAU PRESWYL

- 27.1 Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n ystyried y cytundebau a wnaed gan y Cydbwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Athrawon mewn Sefydliadau Preswyl wrth bennu taliadau am ddyletsswyddau preswyl.

28. TALIADAU YCHWANEGOL

- 28.1 Yn unol â pharagraff 40 y Ddogfen a pharagraffau 70-80 o adran 3 y canllawiau, gall y corff perthnasol wneud taliadau i athro, gan gynnwys Pennaeth mewn perthynas â
- datblygiad proffesiynol parhaus a wneir y tu allan i'r diwrnod ysgol;
 - gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon fel rhan o rediad cyffredin yr ysgol;
 - cyfranogi mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol y cytunir arnynt rhwng yr athro a'r Pennaeth neu, yn achos y Pennaeth, rhwng y Pennaeth a'r corff perthnasol;
 - cyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol yn sgil, neu mewn perthynas â'r Pennaeth yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chodi safonau addysgol mewn un neu fwy o ysgolion ychwanegol.
- 28.2 Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n gwneud taliadau ychwanegol i athrawon yn unol â darpariaethau paragraff 40 y Ddogfen os bydd y pennaeth yn cynghori hynny.
- 28.3 Bydd taliadau'n cael eu cyfrifo ar raddfa ddyddiol neu fesul awr gan gyfeirio at safle graddfa gyflog gwirioneddol pob athro neu, os yw'n briodol ac ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Cyflogau, ar lefel uwch sy'n adlewyrchu cyfrifoldeb a maint yr ymrwymiad.
- 28.4 Ni fydd y Corff Llywodraethu'n talu unrhyw gydnabyddiaeth i unrhyw aelod o'r staff addysgu am gyflawni eu dyletsswyddau proffesiynol fel athro, gan gydnabod nad oes darpariaeth yn y Ddogfen ar gyfer talu bonysau neu gydnabyddiaeth o dan unrhyw amgylchiadau.

29. CYMHELLIANT RECRIWTIO A CHADW MANTEISIOI

- 29.1 Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, neu ddarparu cymorth, cefnogaeth neu fanteision ariannol eraill ar gyfer cymhelliant recriwtio neu gadw (paragraff 41 y Ddogfen a pharagraffau 81 – 84 adran 3 y canllawiau).
- 29.2 Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n ystyried ymarfer ei bwerau o dan baragraff 41 y Ddogfen os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn recriwtio neu gadw staff perthnasol. Bydd yn nodi'n glir o'r cychwyn, yn

ysgrifenedig, beth yw hyd disgwyledig unrhyw gymhellant neu fantais o'r fath, a'r dyddiad adolygu lle gellir eu tynnu yn ôl.

- 29.3 Fodd bynnag, bydd y Corff Llywodraethu'n cynnal adolygiad ffurfiol blynyddol o bob dyfarniad o'r fath mewn ymgynghoriad â'r unigolyn a'u cynrychiolydd undeb llafur.
- 29.4 O ran y Pennaeth, bydd unrhyw 'daliadau ychwanegol' o dan yr adran hon yn ffurfio rhan o'r terfyn 25% ar ddefnyddio pob disgresiwn, oni bai bod y Corff Llywodraethu'n dewis defnyddio'r disgresiwn 'amgylchiadau cwbl eithriadol'. Ni fydd y Corff Llywodraethu'n dyfarnu taliad recriwtio neu gadw o dan baragraff 41 os ydynt eisoes wedi gwneud dyfarniad o dan baragraff 12.3(c) neu wedi ystyried rheswm o'r fath (recriwtio neu gadw) wrth bennu'r Ystod Ysgol Unigol (ISR) o dan Ddogfen gynharach (paragraff 12 y Ddogfen).

30. TREFNIADAU ABERTHU CYFLOG

- 30.1 Os yw'r cyflogwr yn gweithredu trefniant aberthu cyflog, gall athro gymryd rhan mewn unrhyw drefniadau a bydd ei gyflog gros yn cael ei ostwng yn briodol, yn unol â darpariaethau paragraff 43 y Ddogfen.

ATODIADAU

Nodwch eich strwythur staffio diweddaraf yma:

Grŵp ar gyfer yr Ysgol :

ISR y Pennaeth:

L-- i L--

Ystod y Dirprwy Bennaeth:

L-- i L--

Ystod y Pennaeth Cynorthwyol:

L-- i L—

Gweler y strwythur
staffio yn Atodiad @

ARGYMHELLIAD CYFLOG

Enw	-	
Swydd:	-	
Argymhelliad y Pennaeth i'r Pwyllgor Cyflogau gan ystyried datganiad yr Adolygiad Gwerthuso. Rwy'n argymhell y dilyniant cyflog canlynol ar gyfer y gweithiwr a enwir uchod (e.e. O pwynt, 1 pwynt UPR ac ati)		
-		
Rheswm am yr argymhelliad	-	
Llofnod y Pennaeth	-	
Dyddiad	-	
Penderfyniad y Pwyllgor Cyflogau Rydym wedi ystyried yr argymhelliad ar y dilyniant cyflog ac yn cadarnhau ein cytundeb.		
Cadeirydd y Pwyllgor	-	
Dyddiad	-	

Nodiadau

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cyflogau ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i'r Athro a chyngor ar yr hawl i apelio yn unol â Pholisi Cyflogau'r Ysgol.

Pennaeth i sicrhau bod yr *Adran Adnoddau Dynol/Cyflogres yn cael eu hysbysu **nad** yw dilyniant i'r pwynt cyfeirio nesaf yn gymwys (h.y. os na ddyfarnir dilyniant neu bwynt ychwanegol).

Bydd yr hysbysiad yn unol â threfniadau hysbysiad cyflog pob Awdurdod Lleol.

Y BROSES CEISIADAU TROTHWY

- llenwi ffurflen gais yr ysgol (Atodiad 5);
- cyflwyno'r ffurflen gais ac unrhyw dystiolaeth ategol i'r Pennaeth erbyn y dyddiad cau ar 31 Mai;
- bydd y gwerthuswr yn asesu'r cais, a fydd yn cynnwys argymhelliad;
- bydd y cais, unrhyw dystiolaeth ac argymhelliad yn cael eu trosglwyddo i'r Pennaeth er mwyn eu hystyried (os nad y pennaeth yw'r gwerthuswr);
- y Pwyllgor Cyflogau fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, gyda chynghor y Pennaeth;
- bydd athrawon yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad eu cais erbyn 30 Medi;
- os yw'r cais yn aflwyddiannus, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys y meysydd lle teimlwyd nad oedd perfformiad yr athro'n bodloni'r meini prawf perthnasol a nodwyd yn y polisi hwn;
- bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys y ffaith bod ganddynt yr hawl i gyflwyno achos i'r Pwyllgor Cyflogau
- os yw cais yn parhau'n aflwyddiannus, gall ymgeiswyr apelio yn erbyn y penderfyniad.
- Nodir y broses apelio lawn yng nghefn y polisi cyflogau hwn.
- bydd adborth yn cael ei roi mewn amgylchedd cadarnhaol a chalonogol a bydd yn cynnwys cyngor a chymorth mewn meysydd i'w gwella er mwyn bodloni'r meini prawf perthnasol;
- bydd ceisiadau llwyddiannus yn symud i'r isafbwynt ar yr UPR ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd ar ôl dyddiad y cais (e.e. os derbynnir y cais erbyn 31 Mai 2014 – symud i UPR ym mis Medi 2014).

DS – gall y dyddiadau hyn newid yn unol â chylch rheoli perfformiad blynyddol yr ysgol unigol, sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

FFURFLEN GAIS YSTOD CYFLOG UWCH A DILYNIANT

I'w chyflwyno erbyn: 31 MAI

Manylion athro:

Enw: -

Swydd: -

Dyddiad penodi yn yr ysgol hon -

Dyddiad lleoli ar bwynt 6 y brif raddfa -

Rwyf am wneud cais am fynediad i'r Ystod Cyflog Uwch (UPR) ac yn cadarnhau'r canlynol: (*gweler Polisi Cyflogau'r Ysgol)		
Canlyniad y ddau werthusiad diweddaraf yn yr ysgol hon (gall staff nad ydynt yn gallu darparu'r wybodaeth hon oherwydd absenoldeb salwch neu seibiant mamolaeth gyflwyno datganiad ysgrifenedig a chrynodeb o dystiolaeth i ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu)		
Rwy'n fedrus iawn* ym mhob elfen o'r safonau perthnasol		
Mae fy nghyflawniadau a'm cyfraniad i'r ysgol yn sylweddol* a pharhaus*		
LLOFNOD:		
Dyddiad		

Argymhelliad Gwerthuswr (Os nad y Pennaeth, bydd angen rhoi'r ffurflen i'r Pennaeth i'w hystyried o ran cydraddoldeb a thegwch)	
Llofnod:	
Dyddiad:	
Argymhelliad y Pennaeth	

Llofnod:	
Dyddiad:	
<u>Penderfyniad y Pwyllgor Cyflogau a'r rhesymau am y canlyniad:</u>	
Llofnod Cadeirydd y Panel	

NODIADAU:

- Mae'n rhaid i'r athro gael hysbysiad ysgrifenedig o'r canlyniad.
- Os nad yw'r cais yn llwyddiannus, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r athro am feysydd lle nad oedd perfformiad yn bodloni'r meini prawf perthnasol.
- Gall yr Athro ofyn am adborth llafar gan y gwerthuswr. Dylid darparu'r adborth hwn o fewn 10 niwrnod gwaith o roi gwybod am y canlyniad.
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn symud i isafbwynt yr UPR ym mis Medi y flwyddyn academiaidd ganlynol.
- Gall ymgeiswyr aflwyddiannus gyflwyno achos ac apelio yn erbyn y penderfyniad yn unol â'r broses ym Mholisi Cyflogau'r Ysgol.
- Mae'n rhaid i'r Pennaeth drefnu i hysbysu'r *Adran Adnoddau Dynol/Cyflogres am unrhyw benderfyniadau am gyflogau.

* yn dibynnu ar drefniadau'r ALI

Y WEITHDREFN APÊL

Mae'n ofynnol yn ôl y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol ("y Ddogfen") i ysgolion ac awdurdodau lleol weithredu polisi cyflogau sy'n nodi'r seiliau ar gyfer pennu cyflogau athrawon a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag apeliadau.

Os yw athro'n credu nad yw'r argymhelliad cyflog terfynol yn bodloni eu disgwyliadau a'u bod am gael adolygiad pellach o'r wybodaeth sy'n effeithio ar eu cyflog, efallai y byddant am apelio'n ffurfiol yn erbyn y penderfyniad, a defnyddio Gweithdrefn Gwrandawriad Apêl ffurfiol. Mae'n rhaid i Wrandawriadau Apêl yn erbyn penderfyniadau ar gyflogau fodloni gofynion datrys anghydfod cyfraith gyflogaeth (h.y. Rhan 4 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 a Chod Ymarfer ACAS.

GWEITHDREFN GWRANDAWRIAD APÊL

Y bwriad yw y bydd y Weithdrefn Apêl yn cael ei chynnal yn brydlon, trylwyr ac yn ddiduedd.

Cyfnod 1 – Yr Hawl i Gyflwyno Achos

Fel rhan o'r broses pennu cyflogau, bydd y Pennaeth yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Cyflogau sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r argymhelliad cyflogau sydd wedi'i ategu â thystiolaeth asesu berthnasol. Wrth bennu cyflog athro, bydd y Pwyllgor Cyflogau'n ysgrifennu at yr athro i'w hysbysu am y penderfyniad cyflog, y rhesymau am y penderfyniad a chadarnhau, ar yr un adeg, ei hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i'r "Pwyllgor Cyflogau".

Os yw'r athro am gyflwyno achos mewn perthynas â'r penderfyniad, mae'n rhaid iddo wneud hynny'n ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyflogau, fel arfer o fewn 10 niwrnod ysgol neu o fewn amserlen y mae'r naill ochr a'r llall yn cytuno arni. Mae'n rhaid i hyn gynnwys datganiad, gyda manylion digonol, o seiliau'r apêl. Pe bai cais cychwynnol i gyflwyno achos yn cael ei wneud, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cyflogau drefnu cwrdd â'r athro (gall yr athro gael cynrychiolydd undeb llafur yn bresennol) i drafod y mater. Dylid gwahodd y Pennaeth hefyd i'r cyfarfod i egluro sail yr argymhelliad gwreiddiol.

Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn ailystyried y penderfyniad yn breifat ac yn ysgrifennu at yr athro i'w hysbysu o ganlyniad yr adolygiad ac o hawl yr athro i gyflwyno apêl i'r Corff Llywodraethu. Os yw'r athro am arfer ei hawl i apelio, mae'n rhaid iddo ysgrifennu at Glerc y Corff Llywodraethu cyn gynted â phosibl ac o fewn 10 niwrnod ysgol fel arfer, gan gynnwys datganiad o seiliau'r apêl a manylion digonol y ffeithiau y bydd yn dibynnu arnynt.

Bydd hyn yn rhoi Cyfnod 2 – y Weithdrefn Apêl ar waith.

Cyfnod 2 – Y Weithdrefn Apêl

Ar ôl derbyn yr apêl ysgrifenedig, bydd Clerc y Corff Llywodraethu'n sefydlu Pwyllgor Apêl a ddylai gynnwys tri llywodraethwr nad ydynt yn cael eu cyflogi yn yr ysgol ac sydd heb gymryd rhan yn y broses pennu cyflogau perthnasol yn y gorffennol a galw cyfarfod o'r Pwyllgor Apêl cyn gynted â phosibl a dim mwy na 20 diwrnod ysgol o ddyddiad derbyn yr apêl ysgrifenedig. Bydd angen i'r "Pennaeth" a'r "Pwyllgor Cyflogau" fynychu cyfarfod i egluro'r sail ar gyfer eu hargymhelliad/penderfyniad gwreiddiol.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Apêl yn gwahodd y gweithiwr (sy'n gallu cael cynrychiolydd undeb llafur yn bresennol) i gyflwyno ei achos. Gofynnir i'r "Pennaeth" a'r "Pwyllgor Cyflogau (Cadeirydd)" hefyd dywys y pwyllgor drwy'r gweithdrefnau a ddilynwyd wrth gyflawni proses y polisi cyflogau.

Ar ôl i'r holl bartïon perthnasol gyflwyno'u hachosion, bydd y Pwyllgor Apêl yn ystyried yr holl dystiolaeth yn breifat a dod i benderfyniad. Bydd y Pwyllgor Apêl yn ysgrifennu at yr athro i'w hysbysu o'u penderfyniad a'r rhesymau amdano. Bydd eraill a fu'n bresennol yn y cyfarfod hefyd yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad. Penderfyniad y Pwyllgor Apêl yw'r penderfyniad terfynol.

Datganiad o Amser Gweithio ar gyfer Athrawon

Enw'r Ysgol/Gwasanaeth:

Amserlen Addysgu Wythnosol yr Ysgol (STTW):

Enw'r gweithiwr:

a) Oriau STTW a weithiwyd: Cyfwerth ag amser llawn:

b) 1265 y flwyddyn /Cyfwerth ag amser llawn = /39 weeks = awr yr wythnos

Amser gosod = (h.y.. ba)

Diwrnodau'r wythnos a weithiwyd:

Gweithgaredd	Amseroedd	Diwrnod yr wythnos/dyddiad	Amllder
Addysgu			
£1			
£1			
£1			
£1			
£1			
CPA			
Arwain a Rheoli			
Cofrestru			
Gwasanaeth			
Dyletswyddau amser chwarae			
Dyletswyddau bugeiliol			
Cyfarfodydd staff			
Ymgynghoriadau rhieni			
Eraill, manylwch			

Dyddiadau diwrnodau HMS yr Ysgol:

.....

Diwrnodau HMS i'w mynychu:

.....

Mae'r uchod yn berthnasol o i

Llofnod Pennaeth/: Dyddiad:

Pennaeth Adran neu Wasanaeth

Llofnod gweithiwr: Dyddiad: